Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1

ECAD4020

2024-25

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa Centre for Education

Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

# Darlith 6:

# **Mwy o ferfau eto (3)**

14.11.2024

n.evans@pcydds.ac.uk

Peniarth .cymru

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Allwedd:



Drilio



Ymarfer ar lafar (yn unigol)



Tasg wrando



Gwaith pâr



Grŵp o dri



Gwaith grŵp



Amser canu



Gwaith ar y byrddau gwyn



Tasg ysgrifennu



Tasg ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth i'r Portffolio

# Bocs cofrestru…






















## Wyt ti'n hoffi …?





# Drilio dyddiol …

Ydy hi'n ddydd Llun heddiw?

Ydy, mae hi'n ddydd Llun heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn ddydd Llun heddiw.

# Trafod y tywydd …



Ydy hi'n bwrw glaw heddiw?

Ydy, mae hi'n bwrw glaw heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn bwrw glaw heddiw.

# Trafod y tywydd …



Ydy hi'n ____________ heddiw?

Ydy, mae hi'n ______________ heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn ______________ heddiw.

# Tywydd
## (#Adams Family)



- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n bwrw glaw!

- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n gymylog!

- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n heulog!



# Bwrw Glaw
## (#Heno, Heno, Hen Blant Bach)

Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Gwisgo het a welis, bwrw glaw
Gwisgo het a welis, bwrw glaw.

Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Neidio yn y pyllau, bwrw glaw
Neidio yn y pyllau, bwrw glaw.

Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Sblasio yn y pyllau, bwrw glaw
Sblasio yn y pyllau, bwrw glaw.

# Y Tywydd
(#She'll be Coming Round the Mountain)



Mae hi'n heulog heddiw, hip-hwre!
Mae hi'n heulog heddiw, hip-hwre!
Mae hi'n heulog heddiw,
Heulog heddiw
Heulog Heddiw, hip-hwre!



Mae hi'n bwrw glaw heddiw, ych-a-fi!
Mae hi'n bwrw glaw heddiw, ych-a-fi!
Mae hi'n bwrw glaw heddiw,
Bwrw glaw heddiw
Bwrw glaw heddiw, ych-a-fi!

Bydd hi'n wyntog yfory, ych-a-fi!....

# Drilio dyddiol …

## Wyt ti'n hoffi …?






# Drilio dyddiol …

## Ydy e'n hoffi …?







# Storm Syniadau



Gwella ynganiad

Dysgu ffeithiau neu wybodaeth

Sicrhau cywirdeb

**Pam drilio patrymau?**

Magu hyder

Newid cywair/ cyflymder y wers

Cynnwys pawb yn rhan o'r dysgu

Cyfle i'r athro asesu

# Beth ydych chi'n sylwi?

Gyda'r ffurfiau cwmpasog, byddwn ni'n defnyddio **berfenw** bob tro.

**Fydd gwrthrych y ferf** (y person/peth sy'n 'dioddef' y weithred) **ddim yn treiglo** gyda'r ffurfiau cwmpasog.

| | | |
|---|---|---|
| **Ffurf gwmpasog** | **Mae hi wedi ennill cadair** yr Eisteddfod unwaith. | ✓ |
| **Ffurf gryno** | **Enillodd** hi **gadair** yr Eisteddfod unwaith. | ✓ |

# Beth ydy berf gryno?

Berf gryno ydy'r ffordd fyrrach o ddweud rhywbeth. Ystyriwch y ddwy frawddeg ganlynol:

**1. Darllenodd Siôn <u>l</u>yfr.**

**2. Mae Siôn wedi darllen llyfr.**

Mae ystyr y ddwy frawddeg yn union yr un peth. **Ffurf gryno** ydy'r cyntaf. **Ffurf gwmpasog** ydy'r ail.

# Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf gryno a berf gwmpasog?

Rydyn ni'n defnyddio y **ffurfiau cwmpasog** mewn sefyllfaoedd sy'n **fwy anffurfiol**, yn enwedig ar lafar.

Mae'r **berfau cryno** yn **fwy ffurfiol**, ac felly, maen nhw'n gweddu sefyllfaoedd ffurfiol yn enwedig wrth ysgrifennu e.e. traethodau ac aseiniadau Prifysgol.

# Berfau presennol / dyfodol



| Presennol / Dyfodol:<br>Ffurf gwmaspog. | Dyfodol:<br>Ffurf gryno. | |
|---|---|---|
| Rydw i'n gweithio | -af i | gweithiaf i |
| Rwyt ti'n | -i di | gweithi di |
| Mae e'n / hi'n | -a e / hi (-iff/-ith) | gweithia e / hi |
| Rydyn ni'n | -wn ni | gweithiwn ni |
| Rydych chi'n | -wch chi | gweithiwch chi |
| Maen nhw'n | -an nhw | gweithian nhw |

# Y Presennol / Dyfodol

Defnyddir y ffurf hon i ddisgrifio:

1) Rhywbeth sy'n digwydd ar y pryd.
   e.e. **Gwelaf** i'r haul yn yr awyr, **mae** hi'n braf.

2) Rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol.
   e.e. **Rhedaf** yn y ras **yfory**.

3) Rhywbeth sydd fel arfer yn digwydd.
   e.e **Edrychaf** ar y teledu bob bore.

# Y Gorffennol



Defnyddir y ffurf hon i ddisgrifio rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol ac sydd wedi dod i ben.

e.e. **Tyfodd** y ferch ei gwallt.

| **Gorffennol** **(amser perffaith):** **Ffurf gwmaspog.** | **Gorffennol:** **Ffurf gryno.** | |
|---|---|---|
| Rydw i wedi | -ais i | darllenais i |
| Rwyt ti wedi | -aist ti | darllenaist ti |
| Mae e / o / hi / Wil wedi | -odd e / o / hi / Wil | darllenodd e/ o / hi / Wil |
| Rydyn ni wedi | -on ni | darllenon ni |
| Rydych chi wedi | -och chi | darllenoch chi |
| Maen nhw wedi | -on nhw | darllenon nhw |

# Bonyn afreolaidd:



| Berfenw | Bonyn | Gorffennol Cryno |
|---|---|---|
| mwynhau | mwynh**e**u- | Mwynheuais i |
| aros | ar**h**os- | Arhosais i |
| cyrraedd | cyr**h**aedd- | Cyrhaeddais i |
| gwrando | gwrand**aw**- | Gwrandawais i |
| gadael | gad**aw**- | Gadawais i |
| meddwl | medd**yli**- | Meddyliais i |

# Berfau Rheolaidd- Gorffennol

Ceir rhai berfau afreolaidd sydd **ddim** yn dilyn y patrwm isod:

...**ais** i
...**aist** ti
...**odd** e/o/hi/Siôn
...**on** ni
...**och** chi
...**on** nhw

# Berfau Afreolaidd - Gorffennol



| Cael | Gwneud | Dod | Mynd |
|---|---|---|---|
| Ces i | Gwnes i | Des i | Es i |
| Cest ti | Gwnest ti | Dest ti | Est ti |
| Cafodd e/hi/Jac | Gwnaeth e/hi/Jac | Daeth e/hi/Jac | Aeth e/hi/Jac |
| Cawson ni | Gwnaethon ni | Daethon ni | Aethon ni |
| Cawsoch chi | Gwnaethoch chi | Daethoch chi | Aethoch chi |
| Cawson nhw | Gwnaethon nhw | Daethon nhw | Aethon nhw |

# Ymarfer: Berfau Afreolaidd- Gorffennol



**<u>Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:</u>**

1. Bydd angen disau poced arnoch chi.
2. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3.
3. Bydd angen un dis ar bob grŵp. Ar y dis bydd y rhagenwau – ti, hi, ni ayyb. (Sleid 11/12)
4. Rhowch sleid 13/14 ar y bwrdd gwyn.
5. Am gyfnod penodol gofynnwch iddyn nhw greu brawddegau gan ddefnyddio'r berfau afreolaidd a'r rhagenwau ar y dis.
6. Bydd pawb yn y grŵp yn cael cyfle i ymarfer y 4 berf afreolaidd.

| | | |
|---|---|---|
| **i (fi)** | **ti** | **e/hi** |
| **ni** | **chi** | **nhw** |

# Ymarfer: Berfau Afreolaidd-Gorffennol



| | |
|---|---|
| dod | mynd |
| gwneud | cael |

# Y gorffennol cryno

| Cadarnhaol | Negyddol |
|---|---|
| Prynais i | **Ph**rynais i ddim |
| Teimlaist ti | **Th**eimlaist ti ddim |
| Cafodd e / hi | **Ch**afodd e / o / hi ddim |
| Bwytodd hi | **F**wytodd hi ddim |
| Darllenodd Sian | **Dd**arllenodd Sian ddim |
| Gwnaeth y plant | **W**naeth y plant ddim |
| Lliwioch chi | **L**iwioch chi ddim |
| Mentron ni | **F**entron ni ddim |
| Rhedon nhw | **R**edon nhw ddim |

Mae berfau sy'n dechrau gyda **p,t,c, yn treiglo'n llaes** ar ddechrau brawddeg negyddol.
Mae berfau sy'n dechrau gyda **b,d,g,ll,m,rh, yn treiglo'n feddal** ar ddechrau brawddeg negyddol.

# Y tabl treiglo

| Llythyren cyn treiglo | Treiglad meddal | Treiglad trwynol | Treiglad llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | - | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Y treiglad llaes

| | | |
|---|---|---|
| p | t | c |
| ↓ | ↓ | ↓ |
| ph | th | ch |

# Berfau gorffennol cryno: negyddol

Mae berfau sy'n dechrau gyda **P, T, C** yn **treiglo'n llaes** ar ddechrau brawddeg **negyddol.** Sylwch dydy'r gwrthrych ddim yn treiglo yn dilyn '**ddim**' mewn brawddegau negyddol e.e.

- **Ph**rynais i ddim **c**inio ysgol heddiw.
- **Th**alais i ddim am y daith ysgol.
- **Ch**ofiais i ddim am yr ymarfer yn ystod amser cinio.

# Y treiglad meddal

| p | t | c | b | d | g | ll | m | rh |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ |
| b | d | g | f | dd | - | l | f | r |

# Berfau gorffennol cryno: negyddol

Mae berfau sy'n dechrau gyda **B, D, G, Ll, M, Rh** yn **treiglo'n feddal** ar ddechrau brawddeg **negyddol.** Sylwch dydy'r gwrthrych ddim yn treiglo yn dilyn '**ddim**' mewn brawddegau negyddol e.e.

- **Dd**ysgon nhw ddim byd yn y wers.
- **W**nes i ddim **g**orffen fy ngwaith cartref neithiwr.
- **L**iwiodd e ddim o'r llun cyn mynd allan i chwarae.

# Berfau gorffennol cryno: negyddol



Trowch y brawddegau canlynol o'r cadarnhaol i'r negyddol.

- Prynon nhw lyfrau newydd yn y siop.
- **Ph**rynon nhw ddim llyfrau newydd yn y siop.

- Darllenais i lyfr yn y gwely neithiwr.
- **Dd**arllenais i ddim llyfr yn y gwely neithiwr.

- Rhedodd e o gwmpas y dosbarth.
- **R**edodd e ddim o gwmpas y dosbarth.

- Teimlais i'n hapus ar y daith ddoe.
- **Th**eimlais i ddim yn hapus ar y daith ddoe.

# Y gorffennol cryno

| Cadarnhaol | Gofyn cwestiynau |
|---|---|
| Prynais i | **B**rynais i…? |
| Teimlaist ti | **D**eimlaist ti…? |
| Cafodd e / hi | **G**afodd e / o/ hi…? |
| Bwytodd hi | **F**wytodd hi…? |
| Darllenodd Sian | **Dd**arllenodd Sian…? |
| Gwnaeth y plant | **W**naeth y plant…? |
| Lliwioch chi | **L**iwioch chi…? |
| Mentron ni | **F**entron ni…? |
| Rhedon nhw | **R**edon nhw…? |

Mae berfau sy'n dechrau gyda **p,t,c,b,d,g,ll,m,rh, yn treiglo'n feddal** ar ddechrau cwestiwn.

# Ateb cwestiynau yn y gorffennol

Mae gwahanol ffyrdd o ddweud *'Yes a No'* yn y Gymraeg. Felly, sut ydych chi'n ateb y cwestiwn canlynol?

**G**odaist ti'n gynnar ddoe?

**Do**

**Naddo**

# Yr amser amherffaith

Rydyn ni'n defnyddio'r amser yma i siarad am beth **roedden ni'n** ei wneud yn y gorffennol. Dyma'r ffurf **gwmpasog**:

| Cadarnhaol | Negyddol | Cwestiwn |
|---|---|---|
| Roeddwn i'n | Doeddwn i ddim yn | Oeddwn i'n…? |
| Roeddet ti'n | Doeddet ti ddim yn | Oeddet ti'n …? |
| Roedd e / o / hi'n | Doedd e / o / hi ddim yn | Oedd e / o / hi'n …? |
| Roedd Siôn yn | Doedd Siôn ddim yn | Oedd Siôn yn…? |
| Roedd y plant yn | Doedd y plant ddim yn | Oedd y plant yn…? |
| Roedden ni'n | Doedden ni ddim yn | Oedden ni'n …? |
| Roeddech chi'n | Doeddech chi ddim yn | Oeddech chi'n …? |
| Roedden nhw'n | Doedden nhw ddim yn | Oedden nhw'n ...? |

# Yr amser amherffaith

Rydyn ni'n defnyddio'r amser yma i siarad am beth **roedden ni'n** ei wneud yn y gorffennol. Dyma'r ffurf **gryno**:

| Presennol/Dyfodol | Gorffennol | Amherffaith |
|---|---|---|
| Darllenaf i | Darllenais i | Darllenwn i |
| Darlleni di | Darllenaist ti | Darllenet ti |
| Darllena e/ o / hi | Darllenodd e/ o / hi | Darllenai e/ o / hi |
| Darllena Siôn | Darllenodd Siôn | Darllenai Siôn |
| Darllena'r plant | Darllenodd y plant | Darllenai'r plant |
| Darllenwn ni | Darllenon ni | Darllenen ni |
| Darllenwch chi | Darllenoch chi | Darllenech chi |
| Darllenan nhw | Darllenon nhw | Darllenen nhw |

# Yr amser amherffaith

| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Oeddwn i'n…? | Oeddet, roeddet ti'n<br>Oeddech, roeddech chi'n | Nac oeddet, doeddet ti ddim yn<br>Nac oeddech, doeddech chi ddim yn |
| Oeddet ti'n…? | Oeddwn, roeddwn i'n | Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn |
| Oedd e / o/ hi'n…? | Oedd, roedd e/ o/ hi'n | Nac oedd, doedd e/ o/ hi ddim yn |
| Oedd Siôn yn….? | Oedd, roedd Siôn yn | Nac oedd, doedd Siôn ddim yn |
| Oedd y plant yn…? | Oedd, roedd y plant yn | Nac oedd, doedd y plant ddim yn |
| Oedden ni'n…? | Oedden, roedden ni'n<br>Oeddech, roeddech chi'n | Nac oedden, doedden ni ddim yn<br>Nac oeddech, doeddech chi ddim |
| Oeddech chi'n…? | Oeddwn, roeddwn i'n<br>Oedden, roedden ni'n | Nac oeddech, doeddech chi ddim<br>Nac oedden, doedden ni ddim yn |
| Oedden nhw'n…? | Oedden, roedden ni'n | Nac oedden, doedden ni ddim yn |




# Cymorth ychwanegol i chi (ac yn y dosbarth)...




















# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?


Gwaith pâr


Help llaw


Grŵp o dri


Drilio


Tasg ysgrifennu




DIOLCH
yn fawr
iawn!
www.draenogdesign.co.uk